Gronfa Ffyniant Gyffredin



POWERED BY LEVELLING UP

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

# Nodiadau Canllaw – Pobl & Sgiliau/Lluosi

**Cyn llenwi ffurflen gais, dylai ymgeiswyr ddarllen y Nodiadau Canllaw hyn ac yna cysylltu â thîm y Cronfa Ffyniant Gyffredin i drafod eich syniad prosiect.**

sharedprosperityfund@valeofglamorgan.gov.uk

**Beth yw'r Gronfa Ffyniant Gyffredin?**

Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU (CFfGDU) yn rhan o ymrwymiad ehangach y llywodraeth i uwchraddio pob rhan o'r DU. Mae’n rhoi cyllid ar gyfer buddsoddiad lleol rhwng 2022 a 2025. Prif nod y Gronfa Ffyniant Gyffredin yw meithrin balchder mewn lleoedd a chynyddu cyfleoedd mewn bywyd ledled y DU.  Mae tair blaenoriaeth buddsoddi yn sail i’r nod hwn.. Mae'r Nodiadau hyn yn ymwneud â blaenoriaethau buddsoddi Pobl a Sgiliau a Lluosi ac fe'u diffinnir fel:

**Pobl a Sgiliau**... helpu i leihau'r rhwystrau y mae rhai pobl yn eu hwynebu rhag cael gwaith a’u helpu i symud tuag at waith ac addysg. O dan y flaenoriaeth Pobl a Sgiliau, mae ‘Lluosi’ neu ‘Multiply’ yn benodol ar gyfer gwella sgiliau rhifedd i oedolion trwy diwtora personol am ddim, hyfforddiant digidol, a chyrsiau hyblyg.

Mae rhan o’r gronfa ar gael i bob awdurdod.  I gael ei ran, rhaid amlinellu ei flaenoriaethau buddsoddi a dewis rhestr o ymyriadau perthnasol i’r ardal.  Dyma'r ymyriadau ar gyfer Pobl & Sgiliau a Lluosi ar gyfer Bro Morgannwg;

## Ymyriadau Bro Morgannwg

| Pobl a Sgiliau |
|---|
| Cymorth gwaith i bobl sy'n economaidd anweithgar (W34)<br>Ardaloedd lleol i ariannu anghenion sgiliau lleol (W39)<br>Cymorth wedi'i deilwra ar gyfer pobl mewn gwaith i gael mynediad at gyrsiau (W38)<br>Ymgysylltu â phobl ifanc a'u helpu i ddatblygu sgiliau meddal (W43)<br>Cyrsiau i gynyddu hyder gyda rhifau (W44)<br>Cyrsiau i rieni sydd am wella sgiliau rhifedd (W45)<br>Cyrsiau i garcharorion presennol a blaenorol a'r sawl sydd ar drwydded dros dro (W46)<br>Cyrsiau sydd â'r nod o annog pobl i uwchsgilio er mwyn cael swyddi/gyrfaoedd (W47) |
| **Lluosi** |
| Modiwlau mathemateg perthnasol ychwanegol mewn cyrsiau galwedigaethol (W48)<br>Rhaglenni arloesi ar y cyd â chyflogwyr (W49)<br>Cyrsiau dwys a hyblyg i bobl heb fathemateg Lefel 2 (W50)<br>Cyrsiau i helpu gyda rhifedd a rheoli arian (W51)<br>Cyrsiau i bobl 19 a hŷn sy'n gadael neu sydd newydd adael y system ofal (W52)<br>Darpariaeth mewn partneriaeth â sefydliadau cymunedol (W53) |

Mae'n rhaid i bob prosiect sy'n cael ei ariannu gan y gronfa ym Mro Morgannwg ymwneud ag un neu fwy o'r ymyriadau uchod, a rhaid gwireddu'r allbynnau a'r deilliannau cysylltiedig. (Gweler Atodiad A)

### Sut mae gwneud cais?

Rhaid i ymgeiswyr lenwi ffurflen gais i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Rhaid i unrhyw un sy'n ystyried gwneud cais gysylltu â thîm y Gronfa Ffyniant Gyffredin cyn cwblhau ffurflen gais i wirio cymhwysedd yn gynnar.

Yn dilyn hyn, byddwn yn rhoi ffurflen gais addas i. Fel arfer bydd angen gwybodaeth ychwanegol i gefnogi'ch cais. Gall hynny gynnwys tystiolaeth o unrhyw ganiatâd neu drwyddedau sydd eu hangen i'ch galluogi i wneud eich prosiect ac o ran eich dyfynbrisiau. . Nid ystyrir ffurflenni cais anghyflawn na rhai a gyflwynir heb y ddogfennaeth ategol. Rhaid cyflwyno pob cais i'r blwch post sharedprosperityfund@valeofglamorgan.gov.uk ac ni chaniateir copïau caled.

### Pryd galla i wneud cais?

Gallwch chi gyflwyno cais unrhyw bryd. Byddwn ni'n ceisio rhoi adborth ar eich cais a rhoi gwybod os yw'n addas ar gyfer asesiad o fewn pythefnos ar ôl i chi ei gyflwyno.  Pan fydd yn barod ar gyfer asesiad, byddwn ni'n ceisio rhoi gwybod yr ateb o fewn wyth wythnos.

| **Pwy all wneud cais? Ymgeiswyr Pobl & Sgiliau/Lluosi** |
|---|
| Darparwyr addysg cyfredol<br><br>Busnesau cyfredol<br><br>Elusennau, mentrau cymdeithasol a Chwmnïau Buddiannau Cymunedol<br><br>Sefydliadau cymorth busnes<br><br>Cyrff Cyhoeddus |

Bydd pob ymgeisydd yn destun asesiad diwydrwydd dyladwy i benderfynu ar ei addasrwydd fel ymgeisydd. Gall hyn gynnwys gwiriadau credyd ymhlith eraill, bydd ymgeiswyr yn cael gwybod cyn i unrhyw wirio ddigwydd.

| **Faint gallaf i wneud cais amdano? Ymgeiswyr Pobl & Sgiliau/Lluosi** |
|---|
| Prosiectau sy'n gofyn am gyllid o £25,000 ac uwch. |

**Am ba mor hir mae'r cyllid yn berthnasol?**

Rhaid gwario cyllid erbyn mis Mawrth 2025 gyda chostau blynyddol wedi'u nodi dros flynyddoedd ariannol.

**Ar beth gellir gwario'r arian?**

Nid rhestr lawn yw hon a gall newid os bydd gwybodaeth gan Lywodraeth y DU yn newid. Yn ogystal, gall rhai themâu buddsoddi ganiatáu gweithgaredd cymwys gwahanol. Cofiwch fod yn rhaid i holl weithgarwch y prosiect ymwneud ag un neu fwy o'r ymyriadau ar dudalen dau.

- ✓ Astudiaethau Dichonoldeb
- ✓ Prynu a llogi offer, peiriannau neu asedau eraill
- ✓ Costau marchnata a chyfieithu
- ✓ Ymchwil a datblygu
- ✓ Gwaith cyfalaf, gan gynnwys adnewyddu adeiladau a mannau agored
- ✓ Costau ymchwil ac ymgynghori eraill
- ✓ Cost staff, dim ond lle mae'r gost yn ymwneud â'r prosiect
- ✓ Hyfforddiant
- ✓ Teithio a chynhaliaeth cysylltiedig â'r prosiect, gan gynnwys costau gwirfoddolwyr
- ✓ TAW nad oes modd ei hadennill
- ✓ Llogi lleoliad

**Ar beth na ellir gwario'r arian?**

- Dyw e ddim ar gyfer busnesau unigol (ar hyn o bryd, cynlluniau penodol ar gael yn fuan)
- Costau rhedeg o ddydd i ddydd (e.e. staff craidd, biliau'r adeilad, treth gyngor, rhent ac yswiriant)
- Projectau sy'n fwy priodol i gael cymorth gan gynlluniau eraill y Cyngor
- Prosiectau sydd heb ddangos yr angen
- Costau prosiect cyn i ni gadarnhau ein cynnig grant

- Eitemau sydd o fudd i bobl unigol yn bennaf
- Gweithgareddau crefyddol neu wleidyddol, gan gynnwys grwpiau ymgyrchu
- Lletygarwch e.e. prynu alcohol
- Gwaith trwsio a chynnal arferol - e.e. gwasanaethu boeler, torri gwair
- Prosiectau sydd ddim yn digwydd ym Mro Morgannwg
- TAW y mae modd ei adfer

## Penderfynu ar gostau'r prosiect

Bydd gofyn i bob prosiect Pobl & Sgiliau roi 20% o gyfanswm cost y prosiect mewn arian cyfatebol arian parod. (O fis Gorffennaf 2023, ni fydd angen i geisiadau Lluosi ddarparu arian cyfatebol.) Dylai costau pob prosiect fod yn gywir ac yn seiliedig ar ffeithiau. Does dim ffordd i brosiectau llwyddiannus ofyn am arian ychwanegol oherwydd nad oedd wedi'i gostio'n gywir. Felly, dylid costio prosiectau ar sail dyfynbrisiau neu brofiad diweddar. Bydd gofyn i brosiectau ddarparu tystiolaeth o'r gweithgaredd tendro canlynol cyn y bydd grantiau'n cael eu talu, ac rydym yn cynghori'n gryf bod hyn yn cael ei wneud cyn cyflwyno cais.

| **Amcangyfrif o'r gwerth** | **Camau Tendro Gofynnol** |
|---|---|
| Hyd at £2,499 | Gwobr uniongyrchol |
| £2,500-£24,999 | 3 dyfynbris neu bris ysgrifenedig wedi eu ceisio gan gyflenwyr perthnasol nwyddau, gwaith a/neu wasanaethau |
| Dros £25,000 | Proses dendro ffurfiol |

## Allbynnau a Deilliannau

Mae'n rhaid i bob prosiect sy'n cael ei ariannu gan y gronfa ym Mro Morgannwg ymwneud ag un neu fwy o'r ymyriadau ar dudalen dau, a rhaid gwireddu'r allbynnau a'r deilliannau cysylltiedig. Gellir gweld rhestr lawn o Allbynnau a Deilliannau yn Atodiad A. Bydd gofyn i brosiectau ddarparu tystiolaeth o gyflawni'r Allbynnau a Deilliannau disgwyliedig; nid yw'r rhestr lawn o'r dystiolaeth sydd ei hangen wedi ei chyhoeddi eto gan Lywodraeth y DU.

## Sut caiff y grant ei dalu?

Bydd y grant yn cael ei dalu yn unol â'r telerau ac amodau yn y llythyr ariannu. Bydd y grant fel arfer yn cael ei dalu ar ôl y gwariant ac yn amodol ar gyflwyno tystiolaeth lawn o wariant i'r Cyngor yn ogystal ag unrhyw dystiolaeth ychwanegol o weithgarwch prosiect sy'n ofynnol i brofi Allbynnau a Deilliannau'r prosiect. Mewn amgylchiadau eithriadol lle gallai hyn achosi anawsterau gwirioneddol i sefydliadau bach, bydd taliadau ymlaen llaw yn cael eu hystyried. I sefydliadau a fyddai'n gweld hyn yn afresymol i gyflawni eu prosiect, siaradwch ag aelod o'r tîm cyn cyflwyno eich cais.

**Sut y caiff fy nghais ei asesu?**

| | **Maen Prawf Blaenoriaeth** | **Sgôr** |
|---|---|---|
| **1** | Addasrwydd strategol o ran Ymyriadau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin | 0 - 20 |
| **2** | Gwerth am arian, gan gynnwys cytuno i nifer gymesur o Allbynnau a Deilliannau ar gyfer lefel cyllid y cais. | 0 - 20 |
| **3** | Tystiolaeth o angen | 0 - 20 |
| **4** | Mae'r prosiect yn ei hanfod yn gadarn, wedi'i gynllunio'n dda gyda risgiau wedi'u rheoli | 0 - 20 |
| **5** | Y nodau llesiant a'r 5 Ffordd o Weithio<br>Efallai y bydd y ddolen hon yn ddefnyddiol | 0 -20 |
| | **Cyfanswm** | **100%** |

Rhaid i bob prosiect gael sgôr basio o 70 er mwyn ystyried ei ariannu, gan gynnwys isafswm o 5 fesul maen prawf.

## Atodiad Allbynau a Deilliannau

| **Pobl a Sgiliau** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ymyriadau** | Allbynnau | | Deilliannau | |
| **W34** | • Nifer y bobl economaidd anweithgar sy’n ymgysylltu â gwasanaethau cymorth gweithwyr allweddol | 138 | • Nifer yr unigolion economaidd anweithgar sy'n hawlio budd-daliadau ar ôl cael cymorth | 80 |
| | • Nifer y bobl economaidd anweithgar sy’n cael cymorth i ddefnyddio’r system fudd-daliadau | 100 | • Nifer y bobl sy'n adrodd gwell cyflogadwyedd ar ôl datblygu sgiliau rhyngbersonol drwy gyllid y Gronfa | 120 |
| | • Nifer y bobl sy’n cael cymorth gyda sgiliau sylfaenol | 200 | • Nifer y bobl â sgiliau sylfaenol | 140 |
| | • Nifer y bobl sy’n cael cymorth iechyd meddwl a chorfforol sy’n arwain at waith | 50 | • Nifer y bobl mewn gwaith a gefnogir | 45 |
| | • Nifer y bobl sy’n cael cymorth i chwilio am swydd | 200 | • Nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd prif ffrwd | 40 |
| | • Nifer y bobl sy'n derbyn cymorth i gael gwaith | 150 | • Nifer y bobl sy’n chwilio am swydd yn dilyn derbyn cymorth | 150 |
| | • Nifer y bobl sy'n cael cymorth i ennill cymhwyster cwblhau cwrs | 150 | • Nifer y bobl mewn cyflogaeth (a hunangyflogaeth) yn dilyn derbyn cymorth | 50 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **W39** | • Nifer y bobl sy'n derbyn cymorth i gael trwydded alwedigaethol<br>• Nifer y bobl sy'n cael cymorth i ennill cymhwyster cwblhau cwrs | 28<br><br>20 | • Nifer y bobl mewn cyflogaeth (a hunangyflogaeth) yn dilyn derbyn cymorth<br>• Nifer y bobl mewn addysg/hyfforddiant<br>• Nifer yr unigolion gweithgar yn economaidd sy'n gwneud hyfforddiant, addysg a sgiliau prif ffrwd. | 45<br><br>24<br><br>20 |
| **W43** | • Nifer y bobl sy'n cael cymorth gyda sgiliau sylfaenol<br>• Nifer y bobl sy'n cael cymorth gyda sgiliau bywyd<br>• Nifer y bobl sy'n cael cymorth i ennill cymhwyster cwblhau cwrs | 190<br><br>150<br><br>90 | • Mwy o bobl yn ennill cymwysterau, trwyddedau a sgiliau<br>• Mwy o bobl yn cael cymorth sgiliau bywyd yn dilyn ymyriadau | 40<br><br>60 |
| | Allbynnau | Lluosi | Deilliannau | |
| **W44 – W53** | • Nifer y cyrsiau rhifedd i oedolion sy'n cael eu cynnal mewn ardal leol drwy Multiply<br>• Nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau sydd wedi'u hariannu gan Multiply<br>• Nifer y bobl sy'n cyflawni cymhwyster | 165<br><br>3156<br><br>1207<br><br>15 | • Nifer yr oedolion sy'n cyflawni cymwysterau mathemateg hyd at, ac yn cynnwys, Lefel 2<br>• Nifer yr oedolion sy'n cymryd rhan mewn cymwysterau a chyrsiau mathemateg hyd at, ac yn cynnwys, Lefel 2 | 1242<br><br>2798 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Nifer y cyrsiau a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â chyflogwyr<br><br>• Nifer y bobl sy'n cael eu hatgyfeirio gan bartneriaid i gyrsiau uwchsgilio<br><br>• Nifer y gwahanol garfanau sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau rhifedd (e.e. dysgwyr yn y carchar, rhieni ayyb) | <br><br><br><br>1180<br><br><br><br><br>22 | | |